

---

# Mae eich Data yn Bwysig i'r GIG

Mae gwybodaeth am eich iechyd a'ch gofal yn ein helpu ni i wella'r gofal a gewch chi fel unigolyn, i roi diagnosis yn gynt, cynllunio eich gwasanaethau lleol ac ymchwilio i driniaethau newydd.

Ym mis Mai 2018, atgyfnerthwyd y rheolau caeth ynghylch sut y caniateir ac na chaniateir defnyddio'r data hyn. Mae'r GIG wedi ymrwymo i gadw gwybodaeth am gleifion yn ddiogel ac i fod yn glir bob amser sut y caiff ei defnyddio.

---

Cewch chi ddewis a gaiff gwybodaeth gyfrinachol amdanoch chi fel claf ei defnyddio at ddibenion ymchwil a chynllunio.

I wybod mwy ewch i: [nhs.uk/your-nhs-data-matters](https://nhs.uk/your-nhs-data-matters)

---

---

## Cewch chi ddewis a gaiff gwybodaeth gyfrinachol amdanoch chi fel claf ei defnyddio at ddibenion ymchwil a chynllunio.

---

### Sut y caiff eich data eu defnyddio

---

Mae'r wybodaeth am eich iechyd a'ch gofal yn cael ei defnyddio er mwyn gwella'r gofal a gewch chi fel unigolyn. Mae hefyd yn cael ei defnyddio i'n helpu ni i ymchwilio i driniaethau newydd, penderfynu ble i leoli clinigau meddygon teulu a chynllunio faint o feddygon a nyrsys sydd eu hangen yn eich ysbyty lleol. Lle bynnag y bo modd, fe geisiwn ddefnyddio data nad ydynt yn dangos pw ydych, ond ambell dro bydd angen defnyddio gwybodaeth gyfrinachol amdanoch fel claf.

### Beth yw gwybodaeth gyfrinachol am glaf?

---

Mae gwybodaeth gyfrinachol am glaf yn dangos pw ydych chi ac yn dweud rhywbeth am eich iechyd, eich gofal neu eich triniaeth. Byddech yn disgwyl i'r wybodaeth hon gael ei chadw'n breifat. Os yw gwybodaeth yn dangos pw ydych, ond dim mwy, fel eich enw a'ch cyfeiriad, nid yw'n cael ei hystyried yn wybodaeth gyfrinachol am glaf ac fe ellir ei defnyddio: er enghraifft, er mwyn cysylltu â chi os yw practis eich meddyg teulu'n cyfuno â phractis arall.

### Pwy sy'n cael defnyddio gwybodaeth gyfrinachol amdanoch fel claf at ddibenion ymchwil a chynllunio?

---

Mae'n cael ei defnyddio gan y GIG, awdurdodau lleol, ymchwilwyr mewn prifysgolion ac ysbytai, colegau meddygol a chwmnïau fferyllol sy'n ymchwilio i driniaethau newydd.

### Dewis optio allan

---

Cewch ddewis optio allan o rannu gwybodaeth gyfrinachol amdanoch fel claf at ddibenion ymchwil a chynllunio. Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth gyfrinachol amdanoch fel claf yn cael ei defnyddio ar rai adegau serch hynny: er enghraifft, yn ystod epidemig pan fyddwch chi efallai mewn perygl neu os peryglir iechyd pobl eraill. Mae'n dal i fod yn bosibl i chi roi cydsyniad i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil penodol.

### A fydd optio allan fel hyn yn effeithio ar y gofal a'r driniaeth a gewch?

---

Na fydd. Bydd gwybodaeth gyfrinachol amdanoch fel claf yn dal i gael ei defnyddio ar gyfer eich gofal unigol chi. Ni fydd optio allan yn effeithio ar eich gofal a'ch triniaeth. Byddwch yn dal i gael eich gwahodd i dderbyn gwasanaethau sgrinio, fel sgrinio ar gyfer canser y coluddyn.

### Beth ddylech chi ei wneud nesaf?

---

Nid oes angen i chi wneud dim os ydych chi'n hapus gyda'r modd y mae gwybodaeth gyfrinachol amdanoch fel claf yn cael ei defnyddio.

Os nad oes arnoch eisiau i wybodaeth gyfrinachol amdanoch fel claf gael ei defnyddio at ddibenion ymchwil a chynllunio, cewch ddewis optio allan yn ddiogel ar-lein neu drwy wasanaeth ffôn.

---

### Cewch newid eich dewis unrhyw amser.

Am wybodaeth bellach neu i wneud eich dewis ewch i [nhs.uk/your-nhs-data-matters](https://nhs.uk/your-nhs-data-matters) neu ffoniwch y rhif **0300 303 5678**